

Cymhwyso syniadau ceidwadol (A01, A02)

Isod, nodir cyfres o sefyllfaoedd gwleidyddol gwahanol. Darllenwch y disgrifiadau yn ofalus ac yna ystyriwch sut y byddai ceidwadwyr yn dewis ymateb iddynt. Cofiwch hefyd ystyried a fyddai gwahanol geidwadwyr – Ceidwadwyr Awdurdodaidd, Ceidwadwyr Traddodiadol ac aelodau gwahanol y Dde Newydd (y neo-geidwadwyr a'r neo-ryddfrydwyr) – yn debygol o gytuno neu anghytuno ar sut ddylid ymateb. Nowch resymau i egluro eich casgliadau yn y gwahanol sefyllfaoedd a cheisiwch gyfeirio yn ôl at rai o elfennau allweddol Ceidwadaeth (e.e. traddodiad, pragmatiaeth, hierarchaeth, awdurdod, eiddo) wrth wneud hyn.

Llywodraeth sy'n cynnal refferendwm er mwyn penderfynu a ddylid cael gwared o deulu brenhinol traddodiadol y wlad.

Llywodraeth sy'n cyflwyno deddfwriaeth er mwyn gwneud priodasau rhwng dau o'r un rhyw yn gyfreithlon.

Llywodraeth sy'n credu'n gryf mewn cyfraith a threfn ac sy'n rhoi pwyslais ar gosbi pobl sy'n torri'r gyfraith, er enghraifft trwy roi cyfnod hir yn y carchar hyd yn oed am droseddau digon diniwed.

Llywodraeth sy'n trosgwlyddo trydan, nwy neu'r rheilffyrdd i gwmnïau preifat.

Llywodraeth sy'n creu mesurau sy'n cyfyngu ar ryddid pobl i fynegi barn a hefyd rhyddid pobl i gasglu at ei gilydd mewn man cyhoeddus yn dilyn ymosodiadau terfysgol.